

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran

Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o lyfr yr Actau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Actau 16: 9-40



ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 16:31

Astudiaeth I Paul yn Philipi



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Rhufeiniaid 10: 8-13

Aeth Paul a'i gymdeithion ymlaen ar eu taith gan gyrraedd Troas ym mhen amser. Un noson yn Nhroas, cafodd Paul weledigaeth – safai dyn a anfonwyd gan Dduw o'i flaen yn ymbil arno.

C Beth ddywedodd y dyn?

Ar unwaith, cychwynnodd Paul a'i gymdeithion am Facedonia, yn gwbl argyhoeddedig fod Duw yn eu galw i bregethu'r Efengyl yn y fan honno. Dyma daith gyntaf Paul i Ewrop. Roedd hwn yn gam mawr iddo – mynd ag efengyl Iesu Grist i gyfandir newydd. Efallai mai dyma pam y bu i Dduw siarad â Paul am y mater mewn ffordd mor arbennig. Cyrhaeddodd Paul ddinas Philipi. Aeth i lecyn ar lan yr afon lle'r arferai nifer o wragedd gyfarfod i weddio. Eisteddodd Paul a'i gyfeillion a dechrau siarad â nhw.

C Pwy oedd y person cyntaf i ymateb i'w neges?

C Pam y bu i hon ymateb?

Roedd hi eisoes yn 'un oedd yn addoli Duw', ond dechreuodd Paul esbonio wrthi am yr Arglwydd Iesu, ac fe dderbyniodd Ef yn llawen fel ei Gwaredwr a'i Harglwydd. Dyna wnaeth aelodau ei theulu hefyd.

C Sut y dangosodd hi a'i theulu eu bod bellach yn credu yn yr Arglwydd Iesu?

Mae'r wraig nesaf y darllenwn amdani yn berson cwbl wahanol

C Sut mae hon yn cael ei disgrifio?

I

I

I

I

2

Bu hon yn dilyn Paul a'i gymdeithion am sawl diwrnod, gan weiddi ar eu hôl.

C Beth oedd hi'n ei weiddi?

2

Roedd Paul wedi'i gyffroi ond chafodd e mo'i dwyllo. Er gwaethaf geiriau'r ferch, gwyddai Paul fod ysbryd aflan ynddi ac mai'r ysbryd hwnnw oedd yn cydnabod pwy oedden nhw. O'r diwedd, trodd Paul ati gan siarad yn uniongyrchol â'r ysbryd.

C Beth ddywedodd e?

2

Mae awdurdod yn enw Iesu Grist. Doedd gan yr ysbryd aflan ddim dewis ond ufuddhau. Trachwant oedd yn sbarduno meistri (perchnogion) y ferch hon. Y cyfan roedden nhw ei eisiau oedd gwneud arian. Roedden nhw am ddial ar Paul a Silas ac fe aethant at yr ynadon gan ddwyn cam gyhuddiadau yn erbyn y ddau. Gwelodd yr ynadon bod y dyrfa yn ochri gyda meistri'r ferch.

C Beth oedd gorchymyn yr ynadon?

1

C Gosodwch y brawddegau canlynol yn y drefn gywir drwy eu rhifo 1 i 7.
(Mae Rhif 1 wedi'i wneud trosoch)

- Galwodd ceidwad y carchar am oleuadau.
- Ganol nos, roedd Paul a Silas yn gweddio ac yn canu mawl i Dduw.
- Agorwyd y drysau led y pen a datodwyd cadwynau pob un o'r carcharorion.
- Rhuthrodd ceidwad y carchar i mewn a syrthiodd yn grynedig wrth draed Paul a Silas.
- Bwriodd ceidwad y carchar Paul a Silas i'r carchar mewnol.
- Siglwyd seiliau'r carchar gan ddaeargryn enbyd.
- Tynnodd ceidwad y carchar ei gleddyf gyda'r bwriad o'i ladd ei hun.

Sylweddolodd ceidwad y carchar fod gwyrrth wedi digwydd. Roedd Duw nid yn unig wedi anfon daeargryn ond hefyd wedi agor holl ddrysau'r carchar a datod cadwynau pob un o'r carcharorion.

C Beth ofynnodd ceidwad y carchar i Paul a Silas?

C Beth oedd yr ateb a dderbyniodd?

C Er hynny, nid dyna'r cyfan ddywedodd Paul a Silas. Ysgrifennwch adnod 32.

Y noson honno, credodd ceidwad y carchar a'i deulu cyfan a chawsant eu hachub! Heb unrhyw oedi, bedyddiwyd pob un ohonynt. (Yn y Beibl, mae bedydd yn dilyn tröedigaeth bob tro.)

C Sut oedd ceidwad y carchar a'i deulu yn teimlo ynglŷn â'u ffydd newydd yn Nuw?
(gweler adnod 34))

Cyn i Paul a Silas adael Philipi, aethant i gartref Lydia er mwyn cyfarfod am y tro olaf â'r holl rai hynny ddaeth yn Gristnogion yn ystod arhosiad y ddau yn y ddinas honno. Aeth Paul a Silas oddi yno gan eu gadael gyda geiriau o gysur ac anogaeth.